# Cerrig a Ffyn
## Gweithgareddau Dilynol ar gyfer Athrawon

**Mae'r gweithgareddau dilynol ar gyfer Cerrig a Ffyn yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 2 o'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru 2008 a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013**

| Cerrig a Ffyn | Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd 2013 | Cysylltiadau gyda'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru | |
|---|---|---|---|
| | | **Sgiliau** | **Ystod** |
| 1. Gweithgaredd dilynol – Cardiau procio ymddygiad troseddol | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br><br>Ll(D)sd<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d | ▪ Llunio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus.<br>▪ Rheoli emosiynau a datblygu strategaethau i ddatrys gwrthdaro a delio gyda bwlio. | ▪ Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill<br>▪ Sefyllfaoedd sy'n creu gwrthdaro a natur bwlio. |
| 2. Gweithgareddau Meddwl am Fwlio | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | ▪ Mynegi eu teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol<br>▪ Cyfrannu i drafodaethau dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon. | ▪ Sefyllfaoedd sy'n creu gwrthdaro a natur bwlio.<br>▪ Archwilio eu gwerthoedd personol |
| 3. Beth yw Bwlio? – Gweithgaredd Llinell Continwwm | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br><br>Ll(D)y&d | ▪ Llunio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus.<br>▪ Cyfrannu i drafodaethau dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon. | ▪ Archwilio eu gwerthoedd personol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. Bwlio: Rôl y Gwyliwr | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br><br>Ll(D)sd<br>Ll(Ll)i | ■ Cydweithio i ddatrys problemau<br>■ Dangos empathi tuag at brofiadau a theimladau pobl eraill | ■ Amrediad eu teimladau ac emosiynau eu hunain ac eraill.<br>■ Mae i weithredoedd personol ganlyniadau |
| 5. Pwy sydd eisiau bod yn Gyfoethog? | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br><br>Ll(D)y&d | ■ Llunio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus. | ■ Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill |
| 6. Gweithgareddau Datrys Problemau | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br><br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d<br><br>Ll(Y)ydd<br>Ll(Ll)i<br><br>Rh(DSD)cchd<br>Rh(DSD)cdd<br>Rh(DSD)dc | ■ Nodi cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>■ Casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn cynnwys holiaduron neu gronfeydd data syml i gefnogi dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag ABCh | ■ Teimlo'n bositif am eu hunain ac yn sensitif at deimladau pobl eraill<br>■ Mae i weithred bersonol ganlyniadau |

## 1. Gweithgaredd Dilynol

Fel cyflwyniad i gysylltu ac i adolygu gall yr athro/athrawes ddefnyddio cardiau procio ymddygiad troseddol (1a) i helpu disgyblion i ddeall y gall bwlio ddod yn weithred droseddol yn ddiweddarach mewn bywyd.
Rhannwch y dosbarth yn barau a rhannwch set o gardiau i bob pâr. Gofynnwch i'r disgyblion gyfateb yr ymddygiad i dramgwyddau troseddol posibl.
Noder: Efallai bydd angen esbonio rhai geiriau/ymadroddion.

| **Ymddygiad** | **Math o dramgwydd troseddol** |
|---|---|
| Copïo eich gwaith | Twyll |
| Eich brifo | Ymosodiad |
| Difetha eich gwaith | Difrod troseddol |
| Cymryd arian | Dwyn |
| Gwneud hwyl am eich pen | Ymddygiad gwrthgymdeithasol |

Adborth a thrafod gyda'r dosbarth.

## 2. Gweithgareddau Meddwl am Fwlio

- Defnyddiwr daflenni gwaith 2a) – 2h).
- Rhannwch y disgyblion yn barau a/neu grwpiau bach.
- Dosbarthwch y cwestiynau procio, un ddalen i bob pâr/grŵp.
- Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu eu hymatebion ar y dalennau ac adrodd yn ôl i'r dosbarth.

## 3. "Beth yw Bwlio?" Gweithgaredd Continwwm

- Marciwch linell continwwm ar lawr yr ystafell ddosbarth.
- Rhowch "cytuno" ar un pen ac "anghytuno ar y pen arall. Gallwch ddefnyddio adnodd 3a gyda'r gweithgaredd hwn.
- Darllenwch yn uchel bob datganiad "Beth yw Bwli?" ar ddalen 3b. Gofynnwch i'r disgyblion ymateb drwy sefyll mewn lle ar y llinell continwwm.
- Holwch y disgyblion ynglŷn â'u hymateb drwy ofyn iddynt roi rhesymau pam eu bod wedi dewis cytuno neu anghytuno gyda'r datganiad.

## 4. Bwlio: Rôl y Gwyliwr (Gweithgareddau PowerPoint)

Defnyddiwch y Cyflwyniad PowerPoint (4)
Sleid 2 - Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn parau a thrafod y cwestiwn sydd ar sleid 2, 'Beth yw bwlio?' Rhowch adborth am y sylwadau i'r dosbarth cyfan.
Sleid 4 - Gweithgaredd Dosbarth - gofynnwch i'r disgyblion i roi enghreifftiau o'r gwahanol fathau o fwlio. Nesaf, darganfyddwch beth mae’r disgyblion yn feddwl yw gwyliwr, sicrhewch fod y disgyblion yn deall y termau ar sleid 6.
Sleid 7 - Gofynnwch i'r disgyblion, mewn parau, a fyddent hwy'n cefnogi'r person a gaiff ei fwlio drwy orffen dechrau'r brawddegau ar sleid 8. Adborth gan y parau i'r dosbarth cyfan.
Sleid 9 - Y disgyblion yn ystyried beth fyddent yn ei wneud pe baent yn gweld rhywun yn cael ei fwlio. Defnyddio ‘Bwlio: Rôl y Gwyliwr taflen raddio’ (Gweithgaredd 4 taflen raddio), torrwch y datganiadau a gofynnwch i'r disgyblion eu trefnu o'r ymateb mwyaf tebygol i leiaf tebygol.
Sleid 10 - paratowch gynllun bras o'ch ysgol, llungopïwch ddigon ar gyfer parau/grwpiau. Gofynnwch i'r disgyblion nodi ar y daflen ardaloedd lle gall bwlio ddigwydd. Yna, rhowch adborth o ymateb y disgyblion i'r dosbarth cyfan.

Gallai ymatebion o'r gweithgaredd hwn gael ei gyflwyno i'w ystyried mewn cyfarfod o'r cyngor ysgol.
Sleid 11 - fel dosbarth cyfan, darparwch ffeithiau diddorol i'w trafod er mwyn cefnogi ymyrraeth gan gyfoedion mewn digwyddiadau bwlio.

## 5. Pwy sydd eisiau bod yn Gyfoethog? (Gweithgaredd Gêm PowerPoint)

- Gellir defnyddio'r PowerPoint yma ar ddiwedd y wers fel gweithgaredd cwis dosbarth cyfan i atgyfnerthu'r dysgu.

## 6. Gweithgareddau Datrys Problemau

- Gweithgaredd 6a a 6b taflen waith tudalen problemau – defnyddiwch y daflen waith tudalen problemau i atgyfnerthu strategaethau i frwydro yn erbyn bwlio. Mae taflen wag wedi ei chynnwys fel y gall athrawon ddewis problemau cysylltiedig â'r ysgol i'w trafod.
- Rhowch un daflen i bob pâr/grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion drafod y broblem a chytuno ar ateb.
- Adroddwch yn ôl ar yr ymatebion i'r dosbarth cyfan.
- Gweithgaredd 6 c/d - Arolygon. Disgyblion i gynnal arolygon o'u dosbarth eu hunain/dosbarthiadau eraill ac adrodd yn ôl eu canfyddiadau.

## Gwefannau i ddisgyblion

www.childline.org.uk
Gwefan ryngweithiol gydag adrannau ar gyfer plant a phobl ifanc, athrawon a rhieni. Mae arni wybodaeth, gemau a gweithgareddau ar gyfer disgyblion CA2.

www.bullybusters.org.uk
Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth ar gyfer disgyblion o bob oed ynglŷn â bwlio, yr effeithiau a'r canlyniadau.

www.stoptextbully.com
Mae hon yn wefan ardderchog ar gyfer bob oed a cyn cynnwys gwybodaeth am fwlio neges destun, yn cynnwys crynodeb o'r ymchwil diweddaraf, cwisiau, cynghorion a phoster.

## Gwefannau defnyddiol i Athrawon

www.bullying.co.uk
Mae'r wefan hon ar gyfer athrawon yn bennaf a gellir ei defnyddio ar gyfer dysgu dosbarth cyfan gan nad yw'r rhyngwynebu yn rhy addas ar gyfer plant. Ceir llawer o astudiaethau achos lle gellir darllen am brofiadau pobl o fwlio a sut i'w drechu, llawer o ddiffiniadau bwlio, mathau o fwlio a sut i drechu bwlio.

- Creu eich poster dim bwlio eich hun
- Darllen Stori Ben am fwlio
- Trafod yr Arolwg Cenedlaethol ar Fwlio

Darllen y tudalennau problemau, trafod ac ysgrifennu atebion fel dosbarth

http://www.cdli.ca/CITE/bullying.htm
Gwefan gyda digon o gyfleoedd ar gyfer trafodaethau dosbarth. Adrannau ar bob agwedd ar fwlio.
 Llawer o weithgareddau trafod dan arweiniad yr athro/athrawes.

http://www.bullying.org
Llawer o wybodaeth i athrawon.
Chwarae gêm lle y dylunnir bwli ac arwr, a rhaid dianc rhag y bwli.

www.tes.co.uk
Ar y wefan hon mae banc adnoddau ar gyfer ABCh. Mae ynddo nifer fawr o adnoddau i'w defnyddio gyda disgyblion cynradd, yn cynnwys pynciau gwrth-fwlio, ymddygiad, diogelwch, rheolau aur, diogelwch y ffordd.

www.nspcc.org.uk/kidszone
Mae'r wefan hon yn addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Disgyblion CA2. Mae'n wefan rhyngweithiol gyda gweithgareddau megis gêm 'Beat the Bully', gwybodaeth ar sut i syrffio'r we'n ddiogel a gwybodaeth ddefnyddiol os ydych yn cael eich bwlio.

## Adnoddau i Athrawon

Ceir gwefan Canllawiau ABCh yn:
www.wales.gov.uk/personalandsocialeducation
Mae safle we Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys cyfeiriad at sawl dogfen berthnasol
http://new.wales.gov.uk/?lang=en
Ceir y Fframwaith ABCh yn:
www.wales.gov.uk/personalandsocialeducation
Ceir y Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru yn:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/curriculumassessment/arevisedcurriculumforwales/skillsdevelopment